**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1269
Ein cyf/Our ref EM/01934/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

2 Awst 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Mai 2022 yn ceisio ymateb i'r canlyniadau arfaethedig a ddarperir gan y deisebwyr ar gyfer Rhaglen Gofal Diwedd Oes. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn ymateb.

Rwyf wedi ymateb i bob un o'r prif ganlyniadau arfaethedig isod.

**Cynnydd yn y personél o fewn y llywodraeth a sefydliadau'r GIG sy'n cefnogi'r rhaglen Gofal Diwedd Oes, mewn modd sy'n gydnaws â meysydd cyflyrau a chlefydau eraill. Byddem yn annog penodi Uwch-arweinydd Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Gofal Diwedd Oes.**

Mae tri aelod o staff yn Llywodraeth Cymru y mae rhan o'u rolau'n wedi ei neilltuo ar gyfer cefnogi'r agenda gofal. Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol hefyd yn darparu goruchwyliaeth a chyfeiriad ar gyfer y rhaglen.

Hefyd yn ddiweddar rydym wedi dyblu nifer y sesiynau y mae Dr Idris Baker, yr arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes, yn gallu eu darparu, gan gynyddu'r amser y mae'n gallu ei dreulio'n cefnogi'r rhaglen genedlaethol i ddau ddiwrnod yr wythnos.

Hefyd, mae Cydweithrediaeth y GIG yn cryfhau'r tîm sy'n cefnogi'r agenda gofal diwedd oes, drwy benodi rhywun i ddarparu mwy o gymorth i reolwr y rhaglen, rhywun i swydd uwch ar gyfer cefnogi'r prosiect, ac arweinwyr nyrsio a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.  Bydd arweinydd profedigaeth amser llawn hefyd yn cael ei recriwtio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Clustnodi cyllid ar gyfer datblygu a darparu'r Rhaglen Gofal Diwedd Oes am y tair blynedd nesaf.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu dros £10.5m ar gyfer sicrhau bod pawb yng Nghymru sydd ag angen gofal lliniarol a diwedd oes yn cael mynediad teg at y gofal a chymorth gorau posibl. Nid oes unrhyw fwriad i leihau'r cyllid hwn dros y tair blynedd nesaf.

Rydym wedi cyflawni yn erbyn ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adolygu cyllid hosbis gwirfoddol gan sicrhau bod £2.2m ychwanegol ar gael i hosbisau Cymru o 2022-23 ar sail reolaidd. Mae hyn yn ychwanegol at yr £8.4m yr ydym yn parhau i'w fuddsoddi bob blwyddyn i gefnogi gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol ar draws Cymru.

Mae'r gwaith ar Gam 2 yr adolygiad cyllid, sy'n cynnwys gofal statudol a gwirfoddol, arbenigol a chyffredinol, a'r sbectrwm oed cyfan o blant ac oedolion, bellach yn mynd rhagddo. Bydd y cam hwn yn ystyried modelau darparu, unrhyw amrywiaeth ddaearyddol, a dealltwriaeth o'r gwerth a ddarperir gan y gwasanaethau hyn.

Hefyd yn ddiweddar, rwyf wedi cytuno i barhau â'r £2m y flwyddyn ar gyfer cefnogi'r ddarpariaeth gofal diwedd oes yng Nghymru am weddill tymor presennol y Senedd.

**Cyhoeddi cynllun gweithredu tair blynedd treigl ar gyfer y Rhaglen Gofal Diwedd Oes yng Nghymru. Bydd hyn yn digwydd ar ôl cyhoeddi'r Datganiad Ansawdd yn Haf 2022.**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu diweddaru'r Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Cynlluniau Iechyd Difrifol.  Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu disodli gan Ddatganiadau Ansawdd sy'n egluro ein bwriad polisi a'r hyn a olygir gan wasanaeth da. Maent yn disgrifio'r canlyniadau a'r safonau a ddisgwylir wrth sôn am wasanaethau ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Disgwylir i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ddisgrifio sut y byddant yn gweithredu ar ddatganiadau ansawdd drwy eu cynlluniau tymor canolig integredig. Bydd y gwahanol raglenni cenedlaethol, rhwydweithiau a grwpiau gweithredu yn helpu sefydliadau'r GIG i wneud hyn drwy ddatblygu cynlluniau galluogi. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen waith Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Diwedd Oes, a allai fod ar ffurf cynllun gweithredu.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services